CAFOD
un byd yn unig just one world

Elusen gofrestredig rhif: 285776

Cynllun Gwers 1: Prynwch fanana - Pwy sy'n cael ei effeithio?

Mae'r disgyblion yn ymchwilio i gynhyrchu cynnyrch penodol mewn gwlad arall. Maen nhw'n ystyried sut mae cynhyrchu'n effeithio ar wahanol bobl a sefydliadau sydd â rhan: Cynhyrchwyr (ffermwyr bach yn ogystal â chwmnïau mawr), gweithwyr a chwsmeriaid

I DDECHRAU
Daliwch fanana i fyny. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu ar bapur faint maen nhw'n meddwl y mae'r fanana'n ei gostio a pham mai'r swm hwnnw yw ei phris. Dim ond dau funud sydd ganddyn nhw a'r person sy'n dyfalu'r pris iawn, gyda'r crynodeb mwyaf cywir o'r rhesymau (gweler isod) fydd yn ennill y fanana. *D.S. Cofiwch beidio â manylu gormod ar y rhesymau'r adeg yma!* **[5 munud]**

PRIF WEITHGAREDDAU
Gweithgaredd Un Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bump. Dylid dewis un person hefyd fel llefarydd pob grŵp. Rhannwch y Gêm *Banana Split*. Eglurwch fod banana 'doler' (h.y. banana wedi'i gynhyrchu'n ddwys o America Ladin ac America Ganol ble mae cwmnïau grymus yr Unol Daleithiau'n rheoli cynhyrchu) yn cael ei gwerthu am 30c. Mae'n rhaid i bob grŵp weithio allan faint o'r 30c sy'n mynd i weithiwyr banana, perchnogion planhigfeydd, cludwyr, perchnogion siopau, mewnforwyr a'r aeddfedwyr. Eglurwch y dylai pob person yn y grŵp darllen a chymryd un o'r swyddogaethau hyn a dadlau ei h / achos dros dderbyn rhan deg o'r arian. Ar ôl i bob person siarad, mae'n rhaid i'r grŵp ddod i gytundeb ar ba ganran o'r 30c dylai pob un ei dderbyn. Yna gofynnir i'r llefarydd gyflwyno sylwadau'r grŵp. **[20 munud]**

Yna, pan fo pob grŵp wedi cael dweud eu dweud, datgelwch y ffigyrau gwirioneddol (gweithwyr banana 1c, perchnogion planhigfeydd 5c, cludwyr 4c, perchnogion siopau 13c, mewnforwyr ac aeddfedwyr 7c) a gofynnwch am ymatebion. [5 munud]

Gweithgaredd Dau Rhannwch Ddalen Grynodeb: Bananas Ynysoedd y Gwynt. Mae hon yn cynnwys manylion diwydiant bananas Ynysoedd y Gwynt a sut y diddymwyd system cwota, a oedd yn gwarantu marchnad i Ynysoedd y Gwynt ym Mhrydain, a allai ladd eu diwydiant banana. (Ceir rhagor o wybodaeth i'r Athro / Athrawes yn: Bananas Ynysoedd y Gwynt. Gofynnwch i hanner y dosbarth darllen yr wybodaeth a rhestru pwyntiau bwled ar paham, yn eu barn nhw, y dylid parhau gyda'r system cwota. Gofynnwch i hanner arall y dosbarth restru pwyntiau bwled pam y dylid peidio â pharhau gyda'r system cwota. Adborth a thrafodaeth. **[20 munud]**

YN LLAWN
Dangoswch lun o ffermwr banana o Uganda. Gofynnwch i'r disgyblion dreulio un funud dawel yn dychmygu bod yn ffermwr banana mae'i fywoliaeth yn cael ei fygwth gan reolau masnach y byd neu gwmnïau trawsgenedlaethol. Gofynnwch iddynt ysgrifennu un gair ar siart troi / bwrdd gwyn i ddisgrifio sut maen nhw'n teimlo am fod yn ffermwr bananas ac un peth y maen nhw wedi'i ddysgu yn ystod y wers. **[2 funud]**

Gwers Amgen 1: Defnyddiwch yr un amcanion dysgu wrth ddefnyddio'r fideo "The Luckiest Nut" a'r gweithgareddau yn nodiadau'r athro / athrawes sydd i'w ganlyn, ar gael oddi wrth CAFOD. Mae'r fideo o animeiddio a chlipiau ffilm yn ffordd ddifyr o egluro sut mae rheolau masnach yn effeithio ar wledydd sy'n datblygu.

Amcanion

Dylai'r disgyblion dysgu:
- Ynghylch yr un diwydiant a sut mae'n effeithio ar wahanol bobl a sefydliadau: cynhyrchwyr, gweithwyr a chwsmeriaid
- Ynghylch annibyniaeth gwahanol wledydd a lleoedd

Canlyniadau Dysgu

Bydd disgyblion yn:
- gwybod am brif elfennau'r broses o gynhyrchu un cynnyrch
- dangos eu bod yn deall rhai o'r ffyrdd y mae masnach mewn un cynnyrch yn effeithio ar gynhyrchwyr bach, cwmnïau mawr, gweithwyr a defnyddwyr
- dangos eu bod yn deall sut mae rhai cwmnïau'n defnyddio llafur rhad mewn gwledydd wedi'u datblygu lai
- myfyrio ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu

Byddwch angen:

- Banana
- Delwedd lawn, naill ai wedi'i lawr lwytho o'r pecyn hwn ac wedi'i gopïo / chwyddo ar gyfer y dosbarth neu wedi'i daflunio'n electronig.
- Copïau o'r Gêm Banana Split, wedi'u llawr lwytho o wefan CAFOD.
- Talen Grynodeb: Bananas Ynysoedd y Gwynt.

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Translated by Fair Trade Wales